| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Y CYNGOR |
| **DYDDIAD** | 22 Hydref 2009 |
| **TEITL** | Adolygu Gwerthoedd y Cyngor |
| **PWRPAS** | I adrodd ar y gwaith o adolygu gwerthoedd y Cyngor a chyflwyno cynigion y Gweithgor Gwerthoedd |
| **ARGYMHELLIAD** | I mabwysiadu'r cynigion ynglŷn â gwerthoedd a'u nod |
| **AWDUR** | Harry Thomas, y Prif Weithredwr |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | Cynghorydd Dyfed Edwards |

## 1. <u>Cefndir</u>

1.1 Bydd Aelodau yn cofio derbyn gwahoddiad i sesiwn yn dilyn cyfarfod y Cyngor ar 16 Gorffennaf i roddi cymorth i adolygu gwerthoedd y Cyngor. Mae'r gwaith hwn yn un elfen o'r rhaglen i newid diwylliant y Cyngor sydd yn y Cynllun Tair Blynedd.

1.2 Ar ei symlaf - dylai ein gwerthoedd osod yr hyn rydym yn disgwyl o'n gilydd a'r hyn ddylid ei ddisgwyl ohonom ni.

1.3 Dylai gwerthoedd y Cyngor;

- Gyfleu'r hyn rydym yn disgwyl o'n gilydd a'r hyn ddylai ein cwsmeriaid ei ddisgwyl ohonom ni.
- Gyrru ymddygiad a llywio'r ffordd mae'r Cyngor yn pwyso a mesur dewisiadau ac yn gwneud penderfyniadau.
- Fod yn fyw ac yn wybyddus

## 2. <u>Pam ein bod wedi penderfynu adnewyddu gwerthoedd y Cyngor?</u>

2.1 O waith ymchwil a wnaethpwyd ar werthoedd presennol y Cyngor, daeth i'r amlwg nad oeddent yn wybyddus a byw, ac felly nad oeddent yn ychwanegu gwerth a bûdd. Fe fydd yr Aelodau oedd yn bresennol yn y sesiwn ar 16 Gorffennaf yn cofio fod cytundeb ynglŷn â hyn, a hefyd consensws ynglŷn â phwysigrwydd cael gwerthoedd cadarn a byw ar gyfer y Cyngor.

2.2 Yn y sesiwn ar 16 Gorffennaf cafwyd nifer o awgrymiadau gennych fel Aelodau, ac yn y cyfamser mae cryn waith wedi ei wneud i gasglu awgrymiadau ar be ddylai gwerthoedd y Cyngor fod gan staff y Cyngor a'r Dinasyddion.

## 3. Camau hyd yma

3.1 Mae nifer o sesiynau wedi eu cynnal i gasglu syniadau er mwyn adolygu gwerthoedd y Cyngor;

- Sesiwn gydag Aelodau etholedig
- Holi staff yn eu mannau gwaith ar hyd a lled y Sir
- Rheolwyr yn rhedeg sesiynau gyda'u staff
- Sesiynau Coleg Uwch Reolwyr
- Holi ein Dinasyddion
- Erthygl yn Newyddion Gwynedd

3.2 Casglwyd holl awgrymiadau ynghyd ac yna gwnaethpwyd gwaith ddistyllu a chlystyru'r gwahanol gynigion.

3.3 Cynhaliwyd cyfarfod o Weithgor o Aelodau a Swyddogion i roddi cymorth i wneud y gwaith o gyd-gynhyrchu i lunio gwerthoedd argymhelliedig o'r llu awgrymiadau a chynigion a wnaed.

3.4 Mae cynigion o waith y Gweithgor yn sefydlu nod ar gyfer y gwerthoedd sef:

**"Y gorau ar gyfer pobl Gwynedd heddiw a fory"**

Atgyfnerthir y nod gan y gwerthoedd canlynol:

- **Pwyslais ar wasanaethau**
- **Positif**
- **Gweithio fel tîm**
- **Gwerth am arian**
- **Parch**

3.5 Mae'r gwerthoedd uchod yn adlewyrchiad o'r prif atebion (a welir yn atodiad 1) a dderbyniwyd yn ystod y broses o gasglu syniadau neu yn eiriau/cymalau sydd yn cwmpasu nifer ohonynt.

3.6 Yn ei gyfarfod ar 13 Hydref 2009, cefnogodd y Bwrdd cynigion y Gweithgor gan argymell i'r Cyngor eu mabwysiadu

## 4. Argymhelliad

4.1 Argymhellir mabwysiadu'r cynigion uchod fel gwerthoedd diwygiedig ar gyfer y Cyngor.

A. Barn yr Aelod Lleol:

B. Barn y Swyddogion Statudol:

1. Prif Weithredwr:

"Awdur yr Adroddiad"

2. Swyddog Monitro:

"Mae sefydlu gwerthoedd y Cyngor yn hynod bwysig gan eu bod yn sylfaen i holl waith ac ymagwedd yr awdurdod. Bu ymgynghori eang ar y gwerthoedd ac mae'r gweithgor wedi dod â chynigion ymlaen ar sail yr ymatebion i'r ymgynghoriad. 'Rwy'n fodlon â'r argymhellion o safbwynt priodoldeb."

3. Prif Swyddog Cyllid:

"Mae'n hanfodol fod "gwerth am arian" ymysg y gwerthoedd arfaethedig, ac ar hyn o bryd mae cryn bwyslais yn gorfod bod ar hynny, ond byddai'r gwerthoedd eraill sydd yma hefyd yn rhoi ffocws buddiol i holl staff a threfniadau'r Cyngor wrth symud ymlaen."

C. Papurau Cefndir:

CH. Goblygiadau Polisi: